Mae NICE wedi asesu tair dyfais, sef NIOX MINO, NIOX VERO a NObreath, er mwyn helpu'r GIG i benderfynu a ddylid defnyddio'r cynhyrchion hyn.

Defnyddir y dyfeisiau i fesur swm yr ocsid nitrig a gaiff ei orfodi allan yn yr anadl (fe'i talfyrrir i FeNO yn Saesneg). Caiff ocsid nitrig ei gynhyrchu yn yr ysgyfaint a chaiff rhywfaint ohono ei anadlu allan. Credir bod lefelau ocsid nitrig uwch yn yr anadl yn gysylltiedig â llid ar yr ysgyfaint ac asthma. Hefyd, gellir lleihau lefelau FeNO yn yr anadl drwy drin asthma yn effeithiol gan ddefnyddio corticosteroidau a gaiff eu hanadlu i mewn (atalwyr). Felly, gall mesur FeNO yn yr anadl helpu i wneud diagnosis o achosion o asthma a'u rheoli.

Mae NICE wedi argymell profion FeNO er mwyn helpu i wneud diagnosis o asthma mewn oedolion a phlant pan na fydd y diagnosis yn glir. Mae wedi argymell profion FeNO hefyd er mwyn helpu i reoli asthma mewn pobl â symptomau er gwaethaf y ffaith eu bod yn defnyddio corticosteroidau a gaiff eu hanadlu i mewn.

ISBN: 978-1-4731-0811-0